# Adroddiad Arolygu

**Sioned Williams**

**Caernarfon**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

15/08/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio’r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau’r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â’i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Y gwasanaeth

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwarchodwr Plant |
| Lleoedd cofrestredig | 6 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 04 Hydref 2017 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Digonol** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Digonol** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant yn cyfathrebu'n hyderus am fod eu dymuniadau, eu hwyliau a'u hanghenion yn cael eu hystyried. Caiff eu safbwyntiau a'u diddordebau eu gwerthfawrogi a gweithredir arnynt. Mae gan y plant gydberthnasau cryf â'r gwarchodwr plant ac maent yn gyfarwydd â'r drefn o ddydd i ddydd. Maent yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'u ffrindiau a'r gwarchodwr plant. Mae'r plant yn frwdfrydig ac yn dangos diddordeb yn eu profiadau chwarae a dysgu. Maent yn meithrin eu sgiliau annibyniaeth mewn ffordd briodol.

Mae gan y gwarchodwr plant ddealltwriaeth dda o'i rôl a'i chyfrifoldebau i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae'n rheoli'r rhyngweithio'n effeithiol. Mae'r gwarchodwr plant yn trefnu profiadau chwarae a dysgu diddorol.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod yr amgylchedd yn lân ac yn groesawgar. Mae'n sicrhau bod y teganau, yr adnoddau a'r dodrefn yn addas ac yn briodol o ran oedran. Oherwydd tywydd gwael, nid oedd yr ardal chwarae awyr agored yn cael ei defnyddio yn ystod ein hymweliad. Fodd bynnag, mae'n fawr ac mewn cyflwr da.

Mae'r gwarchodwr plant yn ymroddedig ac yn ymrwymedig i ofalu am y plant. Mae'n rheoli'r lleoliad yn briodol ac mae'r cydberthnasau â'r rhieni / gofalwyr yn gadarnhaol. Fodd bynnag, mae rhai meysydd angen eu gwella er mwyn cydymffurfio â'r rheoliadau a chyrraedd y safonau.

| Llesiant | Da |
|---|---|

Mae'r plant yn cael cyfleoedd da i wneud dewisiadau a phenderfyniadau am bethau sy'n effeithio arnynt. Maent yn gyfathrebwyr hyderus ac yn mynegi eu hunain yn dda. Er enghraifft, gofynnodd plentyn yn gwrtais am frecwast a dewisodd y grawnfwyd yr oedd am ei gael. Ymatebodd y gwarchodwr plant i gais y plentyn yn brydlon, gan wneud i'r plentyn deimlo ei fod yn cael ei gwerthfawrogi. Mae'r plant yn mwynhau cyflwyno eu hunain a dangos yr hyn y maent yn hoffi chwarae ag ef. Maent yn siarad yn frwdfrydig am eu hymweliad â'r parc ac yn dangos sut maent yn defnyddio eu hysbienddrychau i edrych ar adar.

Mae'r plant yn hapus ac yn setlo'n gyflym gan fod y gwarchodwr plant yn eu cyfarch mewn ffordd gyfeillgar a chynnes. Maent yn mynd ati'n hyderus i ofyn am bethau ac am faldod pan fydd angen cysur arnynt. Mae gan y plant gydberthnasau cadarnhaol â'r gwarchodwr plant ac maent yn ei galw'n ‘Nain’. Maent yn gyfarwydd â'r drefn o ddydd i ddydd a gwnaethant ddangos sut maent yn golchi ac yn sychu eu dwylo ar ôl defnyddio'r toiled a chyn amseroedd bwyd.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'u ffrindiau a'r gwarchodwr plant. Pan fydd y plant yn anghytuno, maent yn dod i ddeall pam mae eu rhyngweithio'n amhriodol ac yn ymateb yn dda pan fydd y gwarchodwr plant yn esbonio pwysigrwydd bod yn garedig i'w ffrindiau. Mae'r plant yn mwynhau cymdeithasu amser bwyd; maent yn eistedd wrth y bwrdd yn aeddfed ac yn ymarfer defnyddio moesau da.

Mae'r plant yn ddysgwyr egnïol a chwilfrydig. Maent yn mwynhau datblygu eu dychymyg yn y gornel gartref drwy chwarae ag amrywiaeth o bropiau perthnasol. Er enghraifft, cyflwynodd plentyn gwpan tegan i'w ffrindiau yr oedd wedi'i osod yn ofalus ar ben soser i'w ffrindiau â balchder. Mae'r plant yn mwynhau darllen llyfrau a siarad â'r gwarchodwr plant am greaduriaid y môr. Mae hyn yn arwain at drafodaethau bywiog fel pwy sydd wedi gweld sglefren fôr. Mae'r plant yn mwynhau gweithio gyda'i gilydd fel tîm ac yn edrych ymlaen at ymarfer eu sgiliau taflu. Er enghraifft, dyfeisiodd y plant gêm, lle roeddent yn taflu bag ffa maint llaw at darged. Arweiniodd hyn at lawer o hwyl a mwynhad. Mae'r plant yn datblygu eu chwilfrydedd yn dda. Er enghraifft, gofynnodd plentyn i'r gwarchodwr plant gau'r llenni er mwyn iddo allu dangos i'w ffrindiau sut roedd ei dortsh yn gweithio. Dangosodd y plentyn i'w ffrindiau sut roedd ei dortsh yn taflunio lluniau o olygfeydd o ddinosoriaid. Arbrofodd y plentyn â thaflunio'r lluniau ar y wal, y nenfwd ac ar y lloriau pren.

Mae'r plant yn datblygu eu hannibyniaeth yn addas. Maent yn bwydo eu hunain yn dda gan ddefnyddio eu cyllyll a ffyrc yn fedrus. Fodd bynnag, caiff cyfleoedd eu colli yn ystod amseroedd bwyd i ddatblygu sgiliau annibyniaeth y plant ymhellach, er enghraifft mae'r gwarchodwr plant yn gweini bwyd i'r plant.

Dewisodd un plentyn fwynhau amser tawel, gan wrando ar y gerddoriaeth Cymraeg hamddenol a oedd yn cael ei chwarae yn y cefndir, a dangosodd ei ddawns osgeiddig i'r gwarchodwr plant. Mae'r plant yn gwneud rhai pethau drostynt eu hunain gydag anogaeth gadarnhaol gan y gwarchodwr plant.

## Gofal a Datblygiad — Da

Mae'r gwarchodwr plant yn darparu gofal mewn ffordd gynnes a chyfeillgar ac mae wedi creu amgylchedd hyfryd a chartrefol. Mae'n adnabod y plant yn dda. Mae'r gwarchodwr plant yn cefnogi’r plant i siarad a mynegi eu hunain yn hyderus ac mae'n ymateb mewn ffordd gyson ac amserol i'w ceisiadau.

Mae gan y gwarchodwr plant ddealltwriaeth dda o'i rôl a'i chyfrifoldebau i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae wedi cwblhau hyfforddiant gorfodol sy'n addas ar gyfer ystod oedran y plant sy'n derbyn gofal, ac mae ganddi ddealltwriaeth briodol o weithdrefnau diogelu. Mae'r gwarchodwr plant yn cwblhau cofnodion o ddamweiniau a digwyddiadau yn gywir a chaiff y rhain eu llofnodi gan y rhieni / gofalwyr i ddangos eu bod wedi cael gwybod amdanynt. Mae'n darparu prydau iach ac mae dŵr yfed ffres ar gael yn hawdd. Mae'r gwarchodwr plant yn cynnal ymarferion tân yn rheolaidd er mwyn helpu'r plant i ddysgu beth i'w wneud mewn argyfwng, a chaiff y canlyniad ei gofnodi er mwyn hwyluso gwelliannau yn y dyfodol. Mae'n annog y plant i olchi eu dwylo, gan eu helpu i ddatblygu eu harferion hylendid personol yn effeithiol. Mae'r gweithdrefnau newid cewynnau yn cydymffurfio â'r gweithdrefnau rheoli heintiau cyfredol. Mae'r gwarchodwr plant yn cadw cofnodion cyson o'r oriau y mae'r plant yn bresennol bob dydd er mwyn cynnal trywydd archwilio clir o'r plant sy'n derbyn gofal yn ystod yr amseroedd hyn.

Mae'r gwarchodwr plant yn cynnig lleoliad cynnes a chroesawgar ac yn sicrhau y rhoddir tawelwch meddwl a chysur i'r plant pan fo angen. Mae hyn yn creu awyrgylch cyfforddus a hapus. Mae'n canmol y plant yn gyson am eu hymdrechion ac yn ymfalchïo yn eu cyflawniadau. Mae'r gwarchodwr plant yn sensitif ac yn ymatebol i anghenion unigol pob plentyn. Mae'n annog y plant i fod yn garedig i'w ffrindiau ac yn rhoi'r polisi rheoli ymddygiad cadarnhaol ar waith yn briodol.

Mae'r gwarchodwr plant yn hyrwyddo'r Gymraeg yn effeithiol er mwyn datblygu defnydd a dealltwriaeth y plant o'r iaith. Mae'n cynllunio gweithgareddau mewn modd ymatebol ac yn gwrando ar geisiadau'r plant o ran yr hyn yr hoffent ei wneud. Mae'r gwarchodwr plant yn trefnu profiadau chwarae a dysgu diddorol ond nid yw'n defnyddio'r arsylwadau y mae'n eu cofnodi am yr hyn y mae'r plant yn ei wneud i'w helpu i gynllunio ar gyfer camau nesaf eu chwarae, eu dysgu a'u datblygiad.  Mae'n ymgysylltu'n dda â'r plant wrth iddynt chwarae ac yn ymuno â nhw'n frwdfrydig pan fydd yn cael eu gwahodd i wneud hynny. Roedd lluniau o'r plant yn eu dangos y mwynhau amrywiaeth o brofiadau chwarae yn yr awyr agored, fel ymweld â safleoedd lleol, casglu dail i wneud collage o ddraenog, gafael mewn cwningen ac archwilio natur drwy fynd am dro mewn ardal goetir a choedwigoedd. Mae'r gwarchodwr plant yn annog ymwybyddiaeth y plant o'u treftadaeth Gymreig ac mae'n trefnu gweithgareddau celf a chrefft hyfryd i ddathlu Santes Dwynwen a Dydd Gŵyl Dewi Sant.

| Yr Amgylchedd | Digonol |
|---|---|

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod yr amgylchedd yn lân ac yn groesawgar. Mae'r amgylchedd chwarae dan do ac yn awyr agored yn fawr ac mewn cyflwr da.

Mae gan y gwarchodwr plant system addas ar gyfer rheoli mynediad i'r safle. Mae wedi cwblhau asesiadau risg cyffredinol i nodi'r peryglon posibl i'r plant a'r mesurau sydd ar waith i reoli'r risgiau hyn. Fodd bynnag, nid yw'r dyddiad adolygu cyfredol wedi cael ei gynnwys. Nid yw'r gwarchodwr plant wedi sicrhau bod y gwiriadau diogelwch blynyddol ar gyfer y system wresogi olew a'r llosgydd boncyffion wedi cael eu cynnal. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu. Yn dilyn ein hymweliad, mae'r gwarchodwr plant wedi cyflwyno tystiolaeth ddymunol i Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) i ddangos ei bod bellach wedi mynd i'r afael â'r mater hwn. Mae gan y gwarchodwr plant bolisïau diogelwch tân sy'n amlinellu'r gweithdrefnau i'w cymryd mewn argyfwng, ond nid ydynt wedi cael eu dyddio i ddangos pryd y cawsant eu hadolygu ddiwethaf. Nid yw wedi cwblhau asesiad risg diogelwch tân Llywodraeth Cymru ar gyfer lleoliadau gwarchod plant. Mae gan y gwarchodwr plant gynllun gwagio'r adeilad mewn argyfwng ar waith. Roedd rhai o'r adnoddau yn y blwch cymorth cyntaf wedi dyddio. Mae'r gwarchodwr plant wedi cwblhau'r adnodd archwilio rheoli heintiau ac mae'r arferion glanhau yn effeithiol.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod yr amgylchedd yn cynnwys ardal chwarae dan do ddigonol i'r plant symud yn rhydd a datblygu eu chwarae mewn ffordd addas. Mae'n sicrhau bod yr amgylchedd yn diwallu llawer o anghenion y plant ac mae ardaloedd i'r plant orffwys ac ymlacio. Mae amrywiaeth o deganau ac adnoddau ar gael sy'n briodol o ran oedran, ond nid ydynt yn cael eu trefnu'n effeithiol yn ardaloedd dysgu neu ardaloedd penodol. Esboniodd y gwarchodwr plant ei bod wrthi'n gweithio ar syniadau i wella'r ardal chwarae a'i hailaddurno. Mae rhai o'r doliau yn adlewyrchu diwylliannau gwahanol er mwyn codi ymwybyddiaeth y plant o'n cymdeithas ehangach, a cheir rhai deunyddiau naturiol ac wedi'u hailgylchu i ddatblygu chwilfrydedd y plant. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod digon o adnoddau i feithrin sgiliau iaith, rhifedd a hunanymwybyddiaeth y plant yn briodol. Ceir ardal ddynodedig i'r plant storio eu heitemau personol ac mae hyn yn creu ymdeimlad o berthyn. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod gwaith celf y plant yn cael ei arddangos mewn ffordd ddeniadol i ddangos bod eu hymdrechion yn cael eu gwerthfawrogi. Caiff llyfrau eu harddangos mewn ffordd ddeniadol er mwyn annog y plant i'w darllen.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod yr ardal chwarae awyr agored mewn cyflwr da. Oherwydd y tywydd gwael, ni welsom unrhyw chwarae yn yr awyr agored. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod amrywiaeth addas o adnoddau ar gael i wella sgiliau corfforol a chydsymud y plant. Mae'r gwarchodwr plant wedi creu ardaloedd i'r plant blannu blodau er mwyn helpu i feithrin eu sgiliau meithrin.

| Arweinyddiaeth a Rheolaeth | Digonol |
|---|---|

Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli ei lleoliad yn briodol. Fodd bynnag, mae angen gwneud gwelliannau pellach i gydymffurfio â'r rheoliadau a chyrraedd y safonau er mwyn sicrhau canlyniadau gwell i'r plant.

Mae'r gwarchodwr plant wedi addasu a gwella'r datganiad o ddiben, ac mae hwn yn cynnwys y wybodaeth ofynnol i adlewyrchu'r hyn y mae'r gwasanaeth yn ei gynnig. Nid yw wedi cyflwyno'r ddogfen gyfredol fel hysbysiad drwy borth ar-lein AGC. Mae gan y gwarchodwr plant bolisi diogelwch ar waith, ond nid yw hwn yn seiliedig ar Weithdrefnau Diogelu Cymru sy'n unol â'r ddeddfwriaeth gyfredol yng Nghymru. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu. Nid yw'r holl bolisïau a gweithdrefnau wedi cael eu diweddaru'n rheolaidd ac nid yw rhai ohonynt yn cyfeirio at y ddeddfwriaeth a'r canllawiau cyfredol yng Nghymru, fel y polisi bwyd a meddyginiaeth. Nid yw'r gwarchodwr plant wedi sicrhau bod y wybodaeth gyswllt ar gyfer AGC yn y polisïau yn gywir. Mae wedi cyflwyno asesiad ar gyfer datganiad y gwasanaeth i AGC. Mae gan y gwarchodwr plant ddealltwriaeth dda o'i chyfrifoldebau i hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru.

Mae'r gwarchodwr plant wedi cwblhau adroddiad sy'n adolygu ansawdd y gofal, ond nid yw wedi cynnwys y sylwadau a gasglwyd gan y plant, rhieni/gofalwyr ac asiantaethau proffesiynol i nodi'r gwelliannau y gellid eu gwneud i werthuso'r lleoliad yn llawn.

Mae'r gwarchodwr plant yn ymrwymedig ac yn ymroddedig yn ei rôl fel gweithiwr gofal plant proffesiynol. Mae'n brofiadol ac wedi cwblhau'r cymwysterau gofal plant perthnasol. Mae'r gwarchodwr plant wedi cwblhau'r hyfforddiant gorfodol diweddaraf. Mae wedi sicrhau bod ganddi hi a'i gŵr dystysgrif gyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Fodd bynnag, nid oes gan bob aelod o'r teulu sy'n byw ar y safle wiriad cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu. Dywedodd y gwarchodwr plant y byddai'n cymryd camau i fynd i'r afael â hyn ar unwaith. Mae'r gwarchodwr plant wedi casglu'r wybodaeth ofynnol yng nghofnodion personol y plant i wneud yn siŵr ei bod yn gallu diwallu eu hanghenion unigol.

Dywedodd y rhieni / gofalwyr eu bod yn fodlon iawn ar y lleoliad a bod eu plant yn mwynhau mynd yno. Gwnaethant ddweud bod y gwarchodwr plant yn cynnig '*good food and activities.'* Dywedodd y rhieni / gofalwyr fod y gwarchodwr plant yn '*treats us all like part of her family'*. Mae'r gwarchodwr plant yn ymgysylltu â'r gymuned yn dda drwy fynd â'r plant am dro ac i ymweld â safleoedd lleol i'w helpu i ddysgu am eu hardal gyfagos a gwella eu sgiliau cymdeithasol.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 20 (4) (a) | Rheoliad 20 4 (a) o Reoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010; rhaid i'r gwarchodwr plant sicrhau bod gan bob person 16 oed a throsodd sy'n byw ar y safle dystysgrif fanylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi'i chydlofnodi gan Weinidogion Cymru. Nid oedd gan ddau aelod o'r teulu 16 oed a throsodd sy'n aros gyda'r gwarchodwr plant dystysgrifau cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. | Cyflawnwyd |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni hyn, a byddwn yn ystyried y mater hwn eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 22 | Rhaid i'r gwarchodwr plant sicrhau bod y polisi diogelu yn seiliedig ar Weithdrefnau Diogelu Cymru. Wrth lunio'r polisi, rhaid i'r gwarchodwr plant hefyd fod yn gyfarwydd â chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru ar ddiogelu plant yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. | Newydd |
| 20 | Rhaid i'r gwarchodwr plant sicrhau bod gan bob person 16 oed a throsodd sy'n byw ar y safle perthnasol dystysgrif fanylach gyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. | Newydd |
| 38 | Rhaid i'r gwarchodwr plant sicrhau bod systemau gwresogi canolog, dyfeisiau, gosodiadau, gan gynnwys rhai tân, yn cael eu gwirio'n rheolaidd gan dechnegydd awdurdodedig. Rhaid i'r gwarchodwr plant sicrhau bod tystysgrifau'n cael eu cadw ac ar gael i'w harolygu gan AGC. | Cyflawnwyd |
| 15 (1) (a) | Mae angen i ddatganiad o ddiben y gwarchodwr plant gynnwys yr ardaloedd a ddefnyddir dan do, a thelerau ac amodau – fel sy'n ofynnol gan y rheoliad – yn ogystal â pholisi derbyn a gweithdrefnau argyfwng | Cyflawnwyd |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| Safon 1 – Gwybodaeth | Gwneud yn siŵr y caiff pob un o'r polisïau a'r gweithdrefnau eu hadolygu'n rheolaidd a bod y rhain yn cyfeirio at ddeddfwriaeth a chanllawiau cyfredol Cymru. |
| Safon 18 – Sicrhau ansawdd | Sicrhau bod safbwyntiau'r plant a'u rhieni / gofalwyr a gweithwyr proffesiynol eraill am y gwelliannau y gellid eu gwneud yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad sy'n adolygu ansawdd y gofal. Sicrhau y caiff hyn ei ymgorffori mewn ymarfer er mwyn mesur llwyddiant y gwasanaeth fel rhan o'r prosesau hyn. |
| Safon 24 – Diogelwch | Diwygio canllawiau Llywodraeth Cymru, Diogelwch tân: canllawiau ar gyfer safleoedd gwarchod plant, sy'n rhoi canllawiau i helpu gwarchodwyr plant i gadw eu hunain, a'r plant yn eu gofal, yn ddiogel rhag tân. |
| Safon 7 – Cyfleoedd i chwarae a dysgu | Sicrhau yr arsylwir ar yr hyn y mae'r plant yn ei wneud ac y caiff ei gofnodi er mwyn helpu i gynllunio'r camau nesaf o ran chwarae, dysgu a datblygiad y plant. |
| Safon 7 – Cyfleoedd i chwarae a dysgu | Creu mwy o gyfleoedd i'r plant ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth, yn enwedig yn ystod amseroedd bwyd. |
| Safon 21 – Hysbysiadau am ddigwyddiadau o bwys | Rhaid i'r gwarchodwr plant sicrhau ei bod yn cyflwyno datganiad o ddiben cyfredol i AGC drwy'r porth ar-lein fel hysbysiad. |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 01/10/2024